Cyngor Bro Llanfihangel Glyn Myfyr

Cofnodion y cyfarfod ar 15fed o Fawrth 2023

Yn bresenol oedd Medwyn Roberts, Arwyn Ellis, Helen Jones, Llyr Jones, Eryl Evans (cadeirydd) a cyng Gwennol Ellis a Generys Roberts.

Nid oedd neb wedi datgan ei diddordeb ir Agenda.

Darllenwyd y cofnodion ac fe u harwyddswyd fel rhai cywir.

Gohebiaeth

LLYFRGELL CYMUNEDOL CERRIG Y DRUDION Mae angen dewis cynyrchiolaeth i fod ar y pwyllgor rheoli llyfrgell yn Ngherrig y Drudion penodwyd Helen Jones.

UNLLAIS CYMRU Tal aelodaeth £37.00 pasiwyd iw dalu.

CYNGOR CONWY CYNLLUN CHWARAE gofyn am gyfraniad I gynnal sesiynnau ychwanegol ir ddau sydd yn cael ei gynnal yn barod yn ystod mis Awst - pasiwyd i beidio ariannu.

AMBIWLANS AWYR CYMRU llythyr diolch am ein cyfraniad.

CYNGOR SIR CONWY ADRAN GWASANAETHAU LLYFRGELLOEDD CYMUNEDOL llythyr yn diolch am inni gytuno i gyfrannu tuag cynnal a chadw y llyfrgell yn Ngherrig y Drudion.

DARREN MILLAR - llythyr yn ei wahodd atom o soes angen.

BLODAU IR POTIAU PENTREF - y clerc wedi prynnu blodau ir potiau.

CYFLOG Y CLERC Talwyd y cyflog y clerc £1748.76.

FYNWENT Tal claddu y diweddar Hywel Morris £300.00.

SGIP pasiwyd i gael sgip yn mis Mai.

CADWYN CLWLYD wedi talu gweddill yr arian ffensio £588.90.

UNRHYW FATER ARALL

AWDIT MEWNOL pasiwyd i ofyn i Teleri Jones wneud yr ymchwiliad mewnol eto eleni.

CLAWYDD GER NANT Y GEURYD - y clerc i roi ar y system Conwy ‘Report it’ i ddweud bod y clawdd yn disgyn ir ffordd.

BONT CROWN - deallwn bod gwaith angen ei wneud ar y allt y Crown lle mae nam wedi cael ei nodi . Bydd golleuadau traffic mewn grym am rai misoedd.

PARCIO YN Y FFORDD mae’r clerc wedi cychwyn ar y broses o gael llinnellau melyn ar y ffordd tu allan i 13 a 14 Bro Alwen.

FYNWENT NEWYDD AR FYNWENT EGLWYS - clerc i gysylltu Wyn i ddifa y tyrchod.